**FFURFLEN ASESU EFFAITH AR Y GYMRAEG**

Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

| **Cam 1 – Casglu Gwybodaeth**<br><br>**NODER:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data. | |
|---|---|
| **Enw'r Cynnig:** | Ymgynghoriad Trefniadaeth Ysgolion Statudol – cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun. |
| **Adran** | Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant – Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif. |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Andrea Richards |
| **Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** | Lisa Howell |
| **E-bost** | Lisa.J.Howell@rctcbc.gov.uk |
| **Ffôn** | Dd/B |
| **Disgrifiad Cryno** | Mae Ysgol Gynradd y Rhigos yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg sydd wedi'i lleoli yn Heol-y-Graig, Rhigos gyda lle i 65 o ddisgyblion. Hon yw'r ysgol leiaf yn y Fwrdeistref Sirol. Mae ganddi ddim ond 3 ystafell ddosbarth sy'n darparu ar gyfer disgyblion o 8 grŵp blwyddyn, o oedran meithrin hyd at flwyddyn 6. Ar hyn o bryd mae 58 o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn yr ysgol a rhagwelir y bydd niferoedd y disgyblion yn gostwng 37% yn y 5 mlynedd nesaf. O'r 58 disgybl yma, mae 7 yn byw y tu allan i'r dalgylch.<br><br>Mae safle'r ysgol yn cynnwys adeilad gwreiddiol yr ysgol, sydd dros 100 oed, dau estyniad brics o ganol y 1960au ar gyfer toiledau, a neuadd i'r dde o'r adeilad gwreiddiol a adeiladwyd yn yr 1980au. Mae yna hefyd adeilad metel parod o'r 1950au sy'n lletya'r plant meithrin. Mae safle cyffredinol yr ysgol wedi'i raddio yn C ar |

RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| | gyfer cyflwr ac C ar gyfer addasrwydd – A yw'r radd uchaf a D yw'r isaf. Mae'r adeiladau mewn cyflwr gwael ac mae angen gwaith adnewyddu sylweddol. Dydy'r safle nac adeilad yr ysgol ddim yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae lleoliad yr ysgol, mewn ardal breswyl, yn gwneud amseroedd gollwng a chasglu yn heriol, gyda threfniadau parcio a throi annigonol i rieni.<br><br>Mae'r cynnig yma'n ceisio cymeradwyaeth ffurfiol i ddechrau'r ymgynghoriad trefniadaeth ysgolion statudol perthnasol a gofynnol i gau Ysgol Gynradd y Rhigos yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Argraffiad) (011/2018) ac i ymestyn dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun i ymgorffori dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos. Serch hynny, yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion (005/2013) bydd hyn yn amodol ar ddewis y rhieni. Bydd y cynnig yma'n ehangu ar y deilliannau cadarnhaol a gyflwynwyd drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, gan alluogi rhagor o ddisgyblion i elwa ar y buddsoddiad sylweddol yma sydd wedi cynnwys darparu adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun.<br><br>Mae Ysgol Gynradd Hirwaun wedi elwa'n ddiweddar ar fuddsoddiad o £9.6 miliwn drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, gan ddarparu ysgol newydd sbon gydag amgylchedd addysgu a dysgu o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif, sy'n cyfoethogi profiadau addysgu a dysgu ar gyfer disgyblion a staff. Agorodd yr ysgol ei drysau i'r disgyblion cyfrwng Saesneg a oedd yn mynychu Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ym mis Medi 2021. Mae'n adeilad ysgol cwbl hygyrch sy'n cydymffurfio'n llwyr â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Mae Ysgol Gynradd y Rhigos hefyd o fewn dalgylch y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn. Bydd cefnogaeth unigol wedi'i theilwra ar gael gan Garfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno parhau â'u haddysg, ym Mhenderyn, trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Dyddiad** | 14 Awst 2023 |
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio: (Defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, cymuned ehangach)** | • Plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd<br>• Rhieni a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos<br>• Athrawon sy'n gweithio yn Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd<br>• Preswylwyr sy'n byw yn nalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos<br>• Plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun ar hyn o bryd<br>• Rhieni a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Athrawon sy’n gweithio yn Ysgol Gynradd Hirwaun ar hyn o bryd<br>• Preswylwyr sy’n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun |

| | |
|---|---|
| **Beth yw nodau’r polisi, a sut mae’r rhain yn berthnasol i’r Gymraeg?** | Nod y polisi yma yw cychwyn ar yr ymgynghoriad trefniadaeth ysgolion statudol perthnasol a gofynnol i gau Ysgol Gynradd y Rhigos yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru ac i ymestyn dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun i ymgorffori dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos. Bydd hyn yn amodol ar ddewis rhieni gan fod Ysgol Gynradd y Rhigos hefyd o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn sydd wedi bod yn ysgol gyfan gwbl Gymraeg ers mis Medi 2021. Fe fydd manteision addysg Gymraeg yn cael eu hybu i rieni a gwarcheidwaid trwy ddosbarthu llyfrynnau Bod Yn Ddwyieithog y Cyngor. Bydd rhieni a gwarcheidwaid sy’n penderfynu trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cefnogi gan Garfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor. |
| **Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Os felly, rhestrwch nhw yma.** | • Plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd<br>• Rhieni a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos<br>• Athrawon sy'n gweithio yn Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd<br>• Preswylwyr sy’n byw yn nalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos<br><br>Dylai unrhyw effaith ar grwpiau Cymraeg fod yn gadarnhaol gan does gan adeilad presennol yr ysgol ddim capasiti i gynnal cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn gyfleusterau defnydd cymunedol yn yr ysgolion priodol mae modd eu defnyddio i gynnal cyfarfodydd, dosbarthiadau neu unrhyw gyfleoedd eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw** | Bob deng mlynedd mae'r DU yn neilltuo un diwrnod ar gyfer y Cyfrifiad, sy'n cyfri'r holl bobl ac aelwydydd yma. Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.<br><br>Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy’n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg. Mae pob un o’r awdurdodau lleol yma'n fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am |

DRAFT

wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i ddata pellach, manylach, o'r Cyfrifiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf ddod i'r fei, (e.e. data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is [LSOA]), bydd angen i ni ystyried pa effaith y gallai ei chael ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Bydd pennaeth Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael ei annog a’i gefnogi i ystyried defnyddio’r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o’r gymuned fynychu dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i'r gymunedol gael cyfathrebu yn Gymraeg. Mae disgyblion sy’n mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos yn dod o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn, a ddaeth yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig ym mis Medi 2021. Mae pennaeth yr ysgol yma'n aelod o Grŵp Llywio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor ac Is-grŵp Deilliant 2 CSCA, sy’n canolbwyntio ar gynyddu nifer y disgyblion dosbarth derbyn/pump oed sy’n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y pennaeth yn cael ei annog a’i gefnogi i ystyried defnyddio’r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o’r gymuned fynychu dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i'r gymunedol gael cyfathrebu yn Gymraeg. Bydd y cyfleoedd hyn yn cynnwys cynnal gwersi Cymraeg i Oedolion a chynnal unrhyw ddigwyddiadau i hybu’r iaith Gymraeg wrth i ni agosáu at yr Eisteddfod Genedlaethol sydd yn cael ei chynnal Rhondda Cynon Taf ym mis Awst 2024, er enghraifft gwersi dawnsio gwerin yn y Gymraeg neu wersi cerddorol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cefnogaeth wedi'i rhoi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Cafodd hyn ei wneud trwy'r Siarter Iaith (Siarter Iaith/Cymraeg Campus) a ddatblygwyd gan Gyngor Gwynedd, ac amryw o brosiectau eraill, ar y cyd â'r Consortiwm a'r Urdd. O ran yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig yma, mae Ysgol Gynradd Rhigos wedi derbyn gwobr efydd y Cymraeg Campus ac yn gweithio tuag at gyflawni eu gwobr arian. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun wedi ymgysylltu â rhaglen Cymraeg Campus ac yn gweithio i gyflawni eu gwobr efydd. Roedd gwerthusiad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023 wrth gasglu gwybodaeth a data ar gyfer Adroddiad Adolygiad Blynyddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae rhaglen Cymraeg Campus y Siarter Iaith Gymraeg wedi’i chael ar y defnydd o’r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Cysylltwyd â 13 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg o wahanol ardaloedd o’r Fwrdeistref Sirol a soniodd pob un ohonyn nhw am gynnydd yn y defnydd o Gymraeg achlysurol drwy’r ysgol gyda mwy o

DRAFT

| | |
|---|---|
| | blant yn chwarae gemau ar y maes chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg a rhagor o wasanaethau yn cael eu cynnal gyda ffocws ar yr iaith Gymraeg, hanes a threftadaeth. Bydd cyflwyno'r rhaglen yma'n barhaus yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd y Cyngor (2022 i 2032).<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg i ddisgyblion sy'n dymuno pontio o addysg cyfrwng Saesneg i'r Gymraeg. Ym mis Gorffennaf 2022 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru'n gyllid i sefydlu darpariaeth trochi Cymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r iaith. Bydd y ddarpariaeth yn addasu model teithio peripatetig. Bydd yr arweinydd trochi yn teithio i ysgolion y disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth i drochi disgyblion yn y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth yn dal i gael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd yn parhau i esblygu wrth i'r galw am y gwasanaeth gynyddu. Pan fydd galw am y gwasanaeth yn cynyddu, bydd y Cyngor yn ystyried creu Uned Drochi yn y Gymraeg sy'n benodol ar gyfer hwyrddyfodiaid ochr yn ochr â'i raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Band B. |
| **Data neu ymchwil perthnasol arall** | Mae gan y Cyngor un deg saith o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau mynediad i bawb. Mae dwy ysgol bob oed ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed, sef Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Llanhari, dwy ysgol gynradd ddwyieithog i blant 3 i 11 oed, sef Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn a 13 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i blant 3 i 11 oed. Mae pob un o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion yma'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg agosaf i Ysgol Gynradd y Rhigos yw Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn, sydd 3.8 milltir i ffwrdd o'r ysgol. Daeth yr ysgol yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn gyfan gwbl o fis Medi 2021. Trosglwyddodd y ffrwd Saesneg o ddisgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun gan ddarparu mwy o gapasiti ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yma o'r Fwrdeistref Sirol. Mae gan Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn le ar gyfer 231 o ddisgyblion o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 6. Ar hyn o bryd mae ganddi 135 o ddisgyblion yn yr ystod oedran yma sy'n golygu bod lleoedd dros ben ar gael i ddarparu ar gyfer nifer uwch o ddisgyblion (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2023). Ar hyn o bryd, mae 3 disgybl yn cael eu cludo o ddalgylch presennol y Rhigos i Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn, felly mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yma eisoes yn eu lle gyda lleoedd ar y bws yn barod. O'r herwydd, fydd dim effaith ariannol ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Mae disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn yn trosglwyddo i addysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Rhydywaun sydd 7.7 milltir i ffwrdd o Ysgol Gynradd y Rhigos. Ar hyn o bryd, mae disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos yn trosglwyddo i addysg uwchradd yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, sydd 7 milltir i ffwrdd, felly ni fyddai'n rhaid iddyn nhw deithio'n sylweddol bellach i dderbyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg pe bydden nhw'n penderfynu newid i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Ysgol Gyfun Rhydywaun wedi elwa'n ddiweddar o fuddsoddiad o £12.1 miliwn i ehangu capasiti'r ysgol a darparu cyfleusterau newydd sbon i staff, disgyblion a'r gymuned ehangach.<br><br>Y lleoliad gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg agosaf yw Cylch Meithrin Penderyn sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Gymunedol Penderyn. Mae'r Cylch yn cynnig sesiynau boreol i blant o 18 mis oed ac mae sesiynau cofleidiol i blant oed meithrin yn y prynhawn.<br><br>Yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) newydd y Cyngor ac er mwyn cyflawni targedau'r CSCA, byddwn ni'n parhau i sicrhau bod buddiannau'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo i rieni a gwarcheidwaid o'r blynyddoedd cynnar cychwynnol hyd at addysg gynradd ac uwchradd, ac ymlaen i addysg uwch ac addysg bellach i bob disgybl, beth bynnag fo'u hanghenion dysgu. Bydd hyn yn digwydd trwy ddosbarthu llyfrynnau Bod Yn Ddwyieithog y Cyngor a thaflenni Trochi yn y Gymraeg mewn digwyddiadau lleol, i Ymwelwyr Iechyd, i leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg a gwasanaethau cofrestri genedigaethau. Fe fydd dosbarthiad ehangach yn cynnwys pob adeilad cyhoeddus y Cyngor ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Dros dymor yr Hydref, bydd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn cael ei chynnal sydd yn targedu hyrwyddo addysg Cymraeg yn uniongyrchol ynghyd ag adnoddau marchnata megis fideos a pharatowyd gan Lywodraeth Cymru a Mudiad Meithrin.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a pha mor ganolog yw'r system addysg yng Nghymru i gyflawni ei gweledigaeth. Mae CSCA newydd y Cyngor (2022-2032) yn nodi gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu ei gyfraniad i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.<br><br>Mae gan fwyafrif yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol ddigon o leoedd i ateb y galw. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu ansawdd ac argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar trwy fuddsoddi'n sylweddol mewn nifer o ddarpariaethau trwy gynlluniau ariannu amrywiol. Bydd hyn yn |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | gymorth i sicrhau continwwm iaith o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau bod y galw cynyddol yn cael ei fodloni. Does dim angen unrhyw newidiadau i'r cynigion yma er mwyn cydymffurfio â'r CSCA.<br><br>Bydd penaethiaid presennol Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun yn hyrwyddo ac yn cyfeirio at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn a Chylch Meithrin Penderyn yng Nghanolfan Gymunedol Penderyn. Bydd hyn yn cael ei gwneud trwy ddarparu llyfrynnau a thaflenni i rieni darpar a thrwy gyfeirio at dudalen addysg cyfrwng Cymraeg ar wefan y Cyngor. Yn ogystal, bydd Gwasanaeth Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn cael ei hyrwyddo gyda rhieni a gwarcheidwaid disgyblion yr ysgol i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n dymuno newid i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn. |

DRAFT

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br><br>Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid eu cwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.<br><br>Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill – hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.<br><br>**Mae Asesiadau blaenorol o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg i'w gweld ar Inform trwy glicio yma.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br><br>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr<br><br>Hawliau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith | **Cadarnhaol** | Fel y soniwyd uchod, mae rhaglen Cymraeg Campus y Siarter Iaith Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n ymwneud â'r rhaglen drwy ddarparu rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. | Nododd Arolwg Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru (2013–2015) fod dros hanner yr ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg a gwblhaodd yr arolwg yn dweud eu bod yn ceisio defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle gyda chydweithwyr ac wrth ddelio â sefydliadau | • Gweithio gyda phennaeth Ysgol Gynradd Hirwaun a sefydliadau cyfrwng Cymraeg i ddefnyddio'r cyfleusterau i gyflwyno sesiynau dysgu Cymraeg i rieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd disgyblion sydd am barhau ag addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol. Ymgorfforwyd yn yr adeilad ysgol newydd gyfleusterau at ddefnydd cymunedol a thrydydd parti i gynnig cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Anogir staff ac ymwelwyr â'r ysgol yn agored i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd a chyda disgyblion. Bydd pob arwydd a gynhyrchwyd ar gyfer yr ysgol yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf sydd ar gael, a bydd arwyddion 'Croeso i chi Ddefnyddio'r Gymraeg' yn cael eu gosod yn nerbynfa newydd yr ysgol fel bod pobl yn gwybod fod croeso iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.<br><br>Bydd disgyblion sydd am drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn yn cael eu cefnogi i wneud hyn. Bydd hyn yn rhoi rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg a bydd yn cefnogi'r | cyhoeddus. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd sicrhau bod staff, trigolion ac ymwelwyr yn cael mynediad teg at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Yn unol â Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor, rhaid i unrhyw gyhoeddiadau, dogfennau a gohebiaeth gan y Cyngor fod yn ddwyieithog gyda neges wedi'i chynnwys yn nodi y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Mae'r Cyngor hefyd yn cymhwyso hyn i unrhyw adeiladau ysgol newydd fel bod arwyddion mewn ysgolion Saesneg yn ddwyieithog. Mae adeiladau ysgol newydd bellach hefyd yn cynnwys braille dwyieithog ar arwyddion ysgol gan ddarparu cyfle cyfartal o ran y Gymraeg a chydraddoldeb. | • Os nad yw person yn gallu siarad Cymraeg, rhaid iddo alw ar gydweithiwr yn yr adeilad sy'n gallu siarad Cymraeg, os gofynnir am hynny neu bydd y gwasanaeth galw yn ôl yn cael ei chynnig os nad oes siaradwyr Gymraeg ar gael. |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | targedau a nodir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Byddwn ni'n annog yr ysgol i ddefnyddio’r ystafelloedd defnydd cymunedol sydd ar gael i gynnig cyfleoedd pellach trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru (2013–2015) roedd y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yng Nghymru yn Rhondda Cynon Taf ac yn ein hawdurdod cyfagos yng Nghaerdydd. Trwy gydweithio â phennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn ac Ysgol Gynradd Hirwaun, anogir cyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol a thrydydd parti o gyfleusterau’r ysgol i gynnig dosbarthiadau dysgu Cymraeg i oedolion, a fydd yn cael eu hyrwyddo yn y gymuned leol a ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd hyn yn cyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor drwy ddarparu | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i'w holl staff mewnol ym mhob gwasanaeth gael hyfforddiant am ddim i wella eu sgiliau Cymraeg. Mae'r Gwasanaethau Cymraeg yn gweithio i ddatblygu cymorth technolegol i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr fel bod modd i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ofynnol i holl aelodau staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg Lefel 1. Trwy weithio gyda Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor, yn benodol y tiwtor Cymraeg mewnol, bydd pob aelod o staff yn cael eu hannog i barhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg tu hwnt i Lefel 1. Bydd aelodau o staff sy’n dewis i wneud hyn yn cael eu cefnogi'n gyfan gwbl. Bydd hyn yn cefnogi'r cyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor i greu gweithlu dwyieithog gyda'r gallu i weithio darparu gwasanaethau'n ddwyieithog. | | |

DRAFT

**<u>Cam 2 – Asesu Effaith</u>**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg**<br>e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â [Strategaeth Cymraeg 2050]() Llywodraeth Cymru / [Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf]() | **Cadarnhaol** | Mae strategaeth uchelgeisiol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol a gwthio ffiniau i gynyddu'r niferoedd sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg. Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen i bob awdurdod lleol drawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i bob disgybl. Os bydd y cynnig yma'n mynd yn ei flaen a bod yr ysgol yn cau, byddwn ni'n gweithio gydag Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn, yr athro trochi yn y Gymraeg a chymuned Rhigos i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd efallai'n dymuno trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn ein | Mae cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23 yn cael eu cynnal ar gampws Llwynypia Coleg y Cymoedd, Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg a Llyfrgell Treorci. Trwy ddefnyddio'r cyfleusterau defnydd cymunedol yn Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn ac Ysgol Gynradd Hirwaun, mae modd cyflwyno gwersi Cymraeg i Oedolion i annog rhieni a gwarcheidwaid i ystyried cymryd gwersi Cymraeg. Byddai'r mathau yma o wersi yn cael eu marchnata a'u hyrwyddo ledled y gymuned ac ysgolion cyfagos i annog rhieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach i gymryd rhan. | • Sicrhau bod rhieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach yn cael eu cyfeirio at y dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Bydd y dosbarthiadau'n cael eu marchnata a'u hyrwyddo trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.<br><br>• Bydd y gweithlu yn yr ysgolion yn parhau i gael ei gefnogi gyda dysgu a rhwydweithio proffesiynol parhaus, gan hwyluso cyfleoedd i rannu arfer gorau. |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cefnogi i gynyddu niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg y Fwrdeistref Sirol yn unol â thargedau ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd pennaeth Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael ei gefnogi a'i annog i ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael i'r gymuned i gynnig cyfleoedd i gyflwyno dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion i rieni, gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned. Bydd hyn yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor.<br><br>Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cefnogaeth wedi'i rhoi i hybu a chynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol trwy weithredu'r Siarter Iaith Gymraeg/Cymraeg Campus mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg mewn partneriaeth â'r Consortiwm. Mae'r Siarter Iaith wedi'i roi ar waith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg er | Mae'r dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn boblogaidd ar hyn o bryd. Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg wedi bod yn ymgysylltu ag ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol i annog ysgolion i gynnig eu cyfleusterau i gyflwyno sesiynau Cymraeg i Oedolion ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.<br><br>Mae is-grŵp Deilliant 7 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn rhoi ffocws effeithiol ar yr heriau a wynebir o ran y gweithlu mewn ysgolion. Mae'r grŵp yn cynnwys swyddogion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cydweithio i roi strategaethau ar waith a fydd yn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau bod gyda ni weithlu mewn ysgolion sy'n ddigonol o ran maint a gallu.<br><br>Mae adroddiadau monitro a baratowyd gan awdurdodau lleol ledled Cymru sydd ar hyn o bryd wedi sefydlu darpariaeth drochi yn y Gymraeg yn nodi | • Parhau i weithio gyda'r Consortiwm i hyrwyddo a chynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'r holl ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi i ennill gwobrau Cymraeg Campus.<br><br>• Cydlynydd CSCA y Cyngor i weithio ar y cyd gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu strategaethau yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr, a chyfrannu at ddatblygu strategaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | mwyn datblygu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn gwahannol gyd-destunau. Erbyn mis Awst 2023, roedd pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr efydd, 13 wedi derbyn y wobr arian a 5 wedi derbyn y wobr aur. Mae dwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr efydd ac 1 wedi derbyn y wobr arian. Mae Cymraeg Campus wedi'i roi ar waith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg er mwyn datblygu defnydd disgyblion o'r Gymraeg. Erbyn mis Awst 2023, roedd 40 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr efydd, 10 wedi derbyn y wobr arian a 2 wedi derbyn y wobr aur. Mae cyfanswm o 5 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr efydd.<br><br>Yn fwy diweddar, mae'r Consortiwm wedi dechrau gweithio gydag ysgolion arbennig, dosbarthiadau cymorth dysgu ac unedau cyfeirio disgyblion yn Rhondda Cynon Taf i roi rhaglen y Siarter | deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr sydd wedi cael mynediad at y cymorth, gan eu paratoi i ddechrau dysgu yn yr ystafell ddosbarth cyfrwng Cymraeg prif ffrwd.<br><br>Rhennir data a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Siarter Iaith Gymraeg â'r Cyngor bob chwarter drwy Swyddog Iaith Gymraeg y Consortiwm. | • Hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion sy'n pontio o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg trwy farchnata a hyrwyddo'r ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg sydd newydd ei sefydlu trwy ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol, dosbarthu taflenni, marchnata trwy wefan y Cyngor a chyfryngau cymdeithasol corfforaethol llwyfannau. |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Iaith Gymraeg (Cymraeg Campus) ar waith. Hyd yn hyn, mae 3 ysgol/uned arbennig wedi ennill gwobr efydd Cymraeg Campus.<br><br>O’r 80 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn y Fwrdeistref Sirol, mae yna 5 ysgol eto i ymgysylltu â’r rhaglen. O’r 13 o ysgolion cyfun cyfrwng Saesneg yn y Fwrdeistref Sirol, mae yna 5 eto i ymgysylltu â 'r rhaglen. Mae'r Consortiwm yn parhau i weithio gyda'r ysgolion cyfrwng Saesneg sydd ddim wedi ymgysylltu eto i annog pobl i ddilyn y rhaglen ac maen nhw'n gweithio'n frwd gydag ysgolion ac unedau arbennig i'w cefnogi i gyflwyno'r rhaglen. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun wedi dechrau ar y rhaglen Cymraeg Campus ac yn gweithio tuag at dderbyn eu gwobr efydd. Mae Ysgol Gynradd y Rhigos wedi derbyn eu gwobr efydd Cymraeg Campus ac maen nhw'n gweithio tuag at y wobr arian ar hyn o bryd. Bydd y gwaith a | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | wneir gan y Consortiwm yn cyfrannu at niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.<br><br>Mewn partneriaeth â'r Consortiwm a’r Urdd, cefnogir ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ddarparu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg a chyfleoedd dysgu Cymraeg dwys trwy brosiect Cymraeg Bob Dydd yr Urdd.<br><br>Wrth gyfrannu at y weledigaeth o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, ac yn unol â'r ymrwymiadau a amlinellir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor, mae sicrhau gweithlu o faint a gallu digonol mewn ysgolion yn hanfodol. Er mwyn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, mae ein system addysg yn ddibynnol ar ei gweithlu ysgolion. Rhaid i ni weithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau gweithlu ysgolion â sgiliau ieithyddol cadarn sydd â'r gallu i ysbrydoli | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ac ysgogi dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg i ddisgyblion sy'n dymuno pontio o addysg cyfrwng Saesneg i'r Gymraeg. Bydd darpariaeth trochi Cymraeg newydd y Cyngor yn cael ei marchnata a’i hyrwyddo ledled y Fwrdeistref Sirol i gefnogi disgyblion sy’n hwyrddyfodiaid i’r iaith, neu’r rhai sy’n ystyried trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn digwydd trwy barhau i ddosbarthu’r taflenni hyrwyddo sydd wedi cael eu creu a thrwy gynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol addysg cyfrwng Cymraeg. Cynhelir yr ymgyrch dros dymor yr Hydref a bydd hyn yn cael ei werthuso ar ddiwedd y flwyddyn calendr hon unwaith mai’r ymgyrch wedi terfynu. Darperir y cymorth hwn drwy drochi’r disgybl yn yr iaith yn eu hysgol gartref. Mae'r galw am y ddarpariaeth drochi yn rhywbeth y bydd y Cyngor yn ei fonitro'n | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | agos wrth i'r ddarpariaeth ddatblygu ac esblygu.<br><br>Nod Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol mewn ysgolion a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr ar draws y sector addysg. Mae hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion yn allweddol i sicrhau bod dysgwyr ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol i gefnogi dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob dysgwr ddod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â Chwricwlwm i Gymru 2022. | | |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg**<br>e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned | **Cadarnhaol** | Erbyn hyn mae gan y Gymraeg statws swyddogol a deddfwriaeth mewn lle sy'n rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau Cymraeg. Yr her yw ehangu’r cyfleoedd i bobl allu defnyddio’r | Yn ddiweddar, mynychodd carfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor sesiwn wybodaeth i rieni a gwarcheidwaid yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen, sydd ar hyn o bryd yn ysgol ddwy iaith ond a | • Gweithredu ymgyrch farchnata wedi'i thargedu i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion sydd am drosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser. | | Gymraeg yn eu bywyd bob dydd trwy greu'r amodau cywir i ddysgwyr newydd o bob oed ddatblygu a defnyddio eu sgiliau o'r blynyddoedd cynnar, trwy bob cam o addysg orfodol a darpariaeth ôl-16, i gyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg.<br><br>Fel y soniwyd uchod, mae rhaglen Cymraeg Campus y Siarter Iaith Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n ymwneud â'r rhaglen drwy ddarparu rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.<br><br>Os bydd cynnig yma'n mynd yn ei flaen, byddwn ni'n gweithio gydag Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael yn yr ysgol i ddisgyblion ddysgu'r Gymraeg a chael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chefnogaeth carfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor i drochi dysgwyr yn yr iaith yn llawn. | fydd yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig o fis Medi 2024. Hyrwyddwyd y gefnogaeth sydd ar gael trwy'r gwasanaeth i rieni a gwarcheidwaid a oedd yn dymuno i'w plant aros ar safle'r ysgol a ysgogodd hyn lawer o ddiddordeb yn y gwasanaeth. Nid oedd llawer wedi clywed am hyn o'r blaen, sy'n ddealladwy o ystyried mai dim ond yn ddiweddar y mae wedi'i sefydlu. Os bydd y cynnig yma'n mynd yn ei flaen, bydd Carfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn gweithio gyda rhieni a gwarcheidwaid Ysgol Gynradd y Rhigos i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael.<br><br>Mae'r galw am ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion wedi'i amlygu gan boblogrwydd y dosbarthiadau presennol sy'n cael eu cynnal, er enghraifft yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg.<br><br>Mae cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Cymraeg, Gwasanaethau Ieuenctid, | addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch farchnata ar y cyfryngau cymdeithasol a dosbarthu taflenni hyrwyddo.<br><br>• Sicrhau bod rhieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach yn cael eu cyfeirio at y dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Bydd marchnata a hyrwyddo'r dosbarthiadau yn cael eu gweithredu trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.<br><br>• Cefnogi penaethiaid Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn ac Ysgol Gynradd Hirwaun i hyrwyddo'r cyfleusterau defnydd cymunedol yn yr ysgolion priodol er |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae modd i gyfleusterau sydd ar gael ar gyfer defnydd cymunedol a thrydydd parti yn Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn ac Ysgol Gynradd Hirwaun gynnig cyfleoedd i gynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion i unrhyw un sydd am ddysgu'r iaith a chyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi strategaeth bum mlynedd sy'n amlinellu ei gamau gweithredu i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg.<br><br>Mae Strategaeth Pum Mlynedd Hybu'r Gymraeg y Cyngor (2022 – 2027) wedi'i hystyried er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaeth yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i weithio tuag at weledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle, a | Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaethau'r Celfyddydau a Diwylliant a'r Gwasanaethau Cerdd i gyd yn rhan o is-grŵp Deilliant 5 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n canolbwyntio ar greu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, felly darperir gwybodaeth yn uniongyrchol. Mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo nid yn unig yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, ond hefyd yn ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ar draws yr holl feysydd gwasanaeth ac yn y gymuned ehangach sy'n cefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o gynyddu'r defnydd o'r iaith, ac yn y pen draw nifer y siaradwyr Cymraeg. | mwyn cyflwyno ystod o gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg gyda chefnogaeth sefydliadau Cymraeg megis Menter Iaith a'r Urdd i gynorthwyo gyda'r hyrwyddo'r Gymraeg. |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | hynny trwy wasanaethau'r Cyngor a thrwy'r gymuned a chreu amodau ffafriol. Mae Gwasanaethau Cymraeg, Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol a Gwasanaethau Cerdd Cyngor Rhondda Cynon Taf i gyd yn gweithio mewn modd rhagweithiol i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr a'r gymuned ehangach ddefnyddio'r Gymraeg. Ymhlith y rhain, mae:<br><br>Gwasanaethau Cymraeg:<br>- Datblygu deunyddiau i'w darparu i staff ysgolion i'w cynorthwyo â'u sgiliau Cymraeg.<br>- Archwilio dichonolrwydd gosod rhaglenni digidol dysgu/cefnogi cyfrwng Cymraeg ar ddyfeisiau pob aelod o staff i gefnogi eu sgiliau a'u datblygiad ieithyddol.<br><br>Gwasanaethau Ieuenctid:<br>- Cynnal teithiau i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg i roi | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfleoedd iddyn nhw i ddefnyddio’r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.<br>- Creu deunyddiau hyrwyddo i'w gosod mewn clybiau ieuenctid ledled y Fwrdeistref Sirol.<br>- Gweithio mewn partneriaeth gyda’’r Urdd a Menter Iaith i ddatblygu Fforymau Ieuenctid Cymraeg ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ynghyd â champysau Coleg y Cymoedd.<br><br>Gwasanaethau Hamdden:<br>- Gweithio gyda’r Urdd i gyflwyno gweithgareddau chwaraeon ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ymchwilio i ffyrdd o ymgorffori'r un ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg trwy ddefnyddio model dwyieithog.<br>- Gweithio gyda Menter Iaith i ddatblygu cyfleoedd i gyflwyno’r Gymraeg mewn sesiynau hamdden. | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Y Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol:<br>- Cydweithio gyda Gwasanaethau Ieuenctid ar raglen o ddarpariaeth ledled lleoliadau diwylliannol a chymunedol i annog defnydd o’r Gymraeg ac ymgorffori’r Gymraeg mewn achlysuron cymunedol.<br><br>Gwasanaethau Cerdd:<br>- Ymgysylltu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg i annog rhyngweithio â'r gwasanaethau cerdd ar gyfer disgyblion sy’n dangos unrhyw fath o ddawn offerynnol. Cefnogi'r disgyblion yma a'u hannog i gymryd rhan yn yr Eisteddfod.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau aliniad clir â'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg Bum Mlynedd. Mae’r ymrwymiad yma i hybu’r Gymraeg, cynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg a gwella sgiliau Cymraeg staff a disgyblion ar draws ysgolion | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhondda Cynon Taf yn cael ei ailddatgan yng Nghynllun Strategol Addysg y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chynhwysiant ar gyfer 2022–2025. | | |

DRAFT

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cydymffurfio â [Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor]()**<br>e.e.<br>cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | **Niwtral** | Bydd yr holl brosesau sy'n gysylltiedig â'r cynnig yma'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i ymgorffori eu Fframwaith Cymhwysedd y Gymraeg gyda'r staff addysgu yn Ysgol Gynradd Hirwaun i gefnogi cyfranogiad mewn cyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau o'r fframwaith i wella eu sgiliau Cymraeg. | Bydd trefniadau cytundebol yn sicrhau bod pob ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bydd pob gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynigion yma'n cael ei hanfon yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.<br><br>Nifer y staff sydd wedi'u lleoli yn yr ysgol (staff addysgu a staff cynorthwyol) sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau i wella eu sgiliau ieithyddol. Nifer y staff sy'n gwneud cais ar gyfer | • Sicrhau bod pob swyddog sy'n ymwneud â'r cynigion yma'n effro i Safonau'r Gymraeg Statudol y Cyngor a sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau hyn.<br><br>• Sicrhau bod y Cyngor a Chonsortiwm Canolbarth y De yn mynd ati i farchnata a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i ymarferwyr sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg.<br><br>• Dros y fisoedd nesaf, bydd Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn cynnal cyfres o sesiynau 'bitesize' ar |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | amrywiaeth o destunau yn perthynol a'r safonau. Bydd y sesiynau'n cael eu hyrwyddo i aelodau staff a fydd pawb yn cael eu hannog o fynychu'r sesiynau er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth a'u cydnabyddiaeth o gydymffurfio a'r safonau. |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | **Cadarnhaol** | Mae Ysgol Gynradd y Rhigos yn ysgol cyfrwng Saesneg yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol sy'n ffinio â Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Ni fydd cau'r ysgol yma'n arwain at agor ysgol cyfrwng Saesneg newydd yn y Fwrdeistref Sirol gan y bydd disgyblion yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol cyfrwng Saesneg agosaf yn Ysgol Gynradd Hirwaun oni bai eu bod yn dewis cael cymorth gan Garfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor ac yn symud i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf yn Ysgol | Mae'r Rhaglen Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'n cynnwys ystod eang o ysgolion, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol i ddarparu gwell cyfleusterau a mynediad teg i addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg dda. | • Sicrhau bod rhieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach yn cael eu cyfeirio at y dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Bydd dosbarthiadau yn cael eu marchnata a'u hyrwyddo trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol. |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gynradd Gymraeg Penderyn. Bydd angen cludiant ar ddisgyblion sy'n byw yn Rhigos i Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn sy'n rhoi cyfle cyfartal i rieni a gwarcheidwaid benderfynu pa gyfrwng addysg yr hoffen nhw ei ddilyn. Trwy weithredu ymgyrch hyrwyddo well wedi'i thargedu, gobeithiwn y bydd rhieni a gwarcheidwaid sy'n byw yn nalgylch presennol Rhigos yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant ar ôl cau'r ysgol.<br><br>Mae cyflwr presennol adeilad Ysgol Gynradd y Rhigos yn wael o gymharu ag amodau Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn. Er bod Ysgol Gynradd Hirwaun wedi elwa'n ddiweddar ar raglen | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i gyflwyno ysgol newydd sbon ar gyfer yr 21ain ganrif, mae adeilad ysgol Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn yn adeilad gweddol newydd ac fe'i hadeiladwyd fel eco-ysgol. O'r herwydd, mae cyfleoedd addysgol cyfartal o ran cyflwr yr ysgolion yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol. Diben y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yw sicrhau bod yna ysgolion da, fel bod gyda phob plentyn a pherson ifanc, waeth beth yw eu hangen dysgu, fynediad teg i addysg o safon dda trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y cynnig yma yn ein helpu i gyflawni'r diben yma.<br><br>Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn gyfleusterau | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ar gael at ddefnydd y gymuned i gynnig cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg a bydd staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymgymryd ag unrhyw ddysgu ychwanegol i wella eu sgiliau Cymraeg lle bo angen. | | |

**<u>Cam 3 – Gwella'r cynnig</u>**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble dylai'r datblygiad fod?

| Beth rydych chi'n mynd i'w wneud? | Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|
| Cefnogi penaethiaid Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn i hybu defnydd cymunedol a thrydydd parti o'r cyfleusterau at ddiben cyflwyno ystod o gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chefnogaeth sefydliadau Cymraeg fel Dysgu Cymraeg Morgannwg, Menter Iaith a'r Urdd i gynorthwyo gyda hyrwyddo'r Gymraeg. | Unwaith y bydd canlyniad yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau a phenderfyniad wedi'i wneud. | Ysgolion yr $21^{ain}$ Ganrif RhCT |
| Gweithio gyda'r ddwy ysgol a Dysgu Cymraeg Morgannwg i gynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn yr ysgol berthnasol. Sicrhau bod rhieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach yn cael eu cyfeirio at y dosbarthiadau trwy farchnata a hyrwyddo trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, a thrwy'r gymuned leol. | Unwaith y bydd canlyniad yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau a | Ysgolion yr $21^{ain}$ Ganrif RhCT<br>Dysgu Cymraeg Morgannwg |

RHONDDA CYNON TAF

| | | |
|---|---|---|
| | phenderfyniad wedi'i wneud. | |
| Hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg trwy farchnata a hyrwyddo'r ddarpariaeth trochi Cymraeg sydd newydd ei sefydlu trwy ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol, dosbarthu taflenni, marchnata trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol. | Gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd – mae taflenni hyrwyddo wedi'u dosbarthu mewn achlysuron lleol. Ar hyn o bryd yn datblygu'r ymgyrch farchnata ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r gwasanaeth ymhellach. | Carfan Trochi yn y Gymraeg RhCT |
| Bydd y gweithlu yn yr ysgolion yn parhau i gael ei gefnogi gyda dysgu a rhwydweithio proffesiynol parhaus, gan hwyluso cyfleoedd i rannu arfer gorau. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Chonsortiwm Canolbarth y De i fynd ati i farchnata a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i ymarferwyr sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg. | Parhaus – rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r Consortiwm i hyrwyddo'r cyfleoedd proffesiynol sydd ar gael ac yn annog ymarferwyr i ystyried y cyfleoedd yma. | Consortiwm Canolbarth y De |
| Y Consortiwm i barhau i weithio gydag ysgolion i hyrwyddo rhaglen Siarter y Gymraeg i gynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg ym mhob ysgol, gan gynnwys ysgolion ac unedau arbennig. | Yn parhau – mae'r Consortiwm yn parhau i gefnogi ysgolion sy'n ymwneud â'r rhaglen i symud ymlaen er mwyn cyflawni eu gwobrau. Mae'r Consortiwm wedi | Consortiwm Canolbarth y De |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | ceisio ymgysylltu â'r ysgolion eraill sydd heb ymgysylltu a bydd yn ceisio eto yn y flwyddyn academaidd nesaf. | |
| Cydlynydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor i weithio ar y cyd gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu strategaethau yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr, a chyfrannu at ddatblygu strategaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. | Parhaus – mae'r CSCA yn gynllun deng mlynedd; byddwn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid ar ddatblygu a gweithredu strategaethau yn unol â'r CSCA. | Swyddog CSCA RhCT |

Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu.

| **Beth gafodd ei nodi?** | **Pam nad yw'n bosibl?** |
|---|---|
| | |
| | |

DRAFT

**Cam 4 – Adolygu**

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae'n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at wasanaethau Cymraeg – SwyddogIaith@rctcbc.gov.uk a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghoriad@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6), ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol.

| **Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg** |
|---|---|---|
| Mae'r sylwadau a derbyniwyd wedi cael eu hymgorffori yn yr asesiad uchod. | 18.09.2023 | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u cynnwys yn yr asesiad uchod. |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |
| Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn gadarnhaol ac o ganlyniad, yn dilyn y panel adolygu nid oedd angen unrhyw newidiadau pellach. | 24.10.23 | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |

RHONDDA CYNON TAF

| | | |
|---|---|---|
| Dywedodd 16.3% o'r ymatebwyr eu bod yn credu y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg.<br><br>Dywedodd 13.6% o'r ymatebwyr fod y ffordd gynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Mae'r sylwadau a gafwyd am gynyddu effeithiau cadarnhaol y cynnig yn cynnwys:<br><br>• Ysgolion Cyfrwng Cymraeg – Yr unig ffordd y bydd yn cynyddu effeithiau positif y Gymraeg yw anfon plant i ysgol cyfrwng Cymraeg.<br>• Addysgu Mwy o Gymraeg – Bydd dysgu mwy o Gymraeg mewn ysgolion yn cynyddu effeithiau cadarnhaol y Gymraeg.<br>• Trosglwyddo i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg – Gall y cynnig olygu bod plant ychwanegol yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd Gymraeg gyfagos, Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn.<br><br>Mae'r sylwadau a dderbyniwyd am leihau effeithiau negyddol y cynnig yn cynnwys:<br><br>• Dosbarthiadau Llai – Bydd gan athrawon mewn dosbarth mwy o gyfrifoldeb a llai o amser i ganolbwyntio ar bob disgybl, felly mae'r Gymraeg yn cael ei heffeithio'n negyddol. | 05.12.2023 | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u cynnwys yn yr asesiad uchod. |

DRAFT

| |
|---|
| **<u>Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu</u>**<br><br>Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy? |

| |
|---|
| |

| **Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig** |
|---|
| Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau o'r Gymraeg yn nhempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad. |
| *Cwblhawyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn –* |

| **Cam 7 – Cymeradwyo** |
|---|

DRAFT

<table>
<tr><td>Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg</td><td>Lisa Howell</td><td>Enw Cyfarwyddwr Gwasanaeth:</td><td>Andrea Richards</td></tr>
<tr><td>Swydd</td><td>Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif.</td><td rowspan="2">Rydw i’n argymell bod y cynnig:<br>(Tynnwch sylw at y penderfyniad)</td><td rowspan="2">Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Llofnod</td><td></td><td>Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth</td><td></td></tr>
<tr><td>Dyddiad</td><td>18.09.23</td><td>Dyddiad</td><td>18.09.23</td></tr>
</table>

RHONDDA CYNON TAF